**WELSH GOVERNMENT**

# THE NEATH TO ABERGAVENNY TRUNK ROAD (A465) (ABERGAVENNY TO HIRWAUN DUALLING AND SLIP ROADS) AND EAST OF ABERCYNON TO EAST OF DOWLAIS TRUNK ROAD (A4060) AND CARDIFF TO GLAN CONWY TRUNK ROAD (A470) (CONNECTING ROADS) (GILWERN TO BRYNMAWR) (SIDE ROADS) ORDER 2014 (VARIATION) ORDER 201-

***REALIGNMENT OF PONT HARRI ISAAC FOOTBRIDGE APPROACH RAMPS***
***RELOCATION OF BLACKROCK FOOTBRIDGE***
***REALIGNMENT OF FOOTPATHS FP333/41/1, FP333/34/2 AND FP333/35/1 AT BRYNMAWR, NATIONAL CYCLE ROUTE 46, FOOTPATH AT LION TERRACE***
**MINOR AMENDMENTS TO NEW HIGHWAYS INCLUDING HAFOD FOOTBRIDGE, FOOTWAYS/BRIDLEWAYS, PRIVATE MEANS OF ACCESS AND TURNING HEAD FACILITIES AND EXTENT OF TIE-IN WORKS**

## EXPLANATORY STATEMENT

## INTRODUCTION

Following the Public Local Inquiry held in March/April 2014, the A465 Dualling Section 2 Gilwern to Brynmawr Orders (known in this document as the Published Scheme) were made in October 2014. Options for adding value to the Scheme have continued to be investigated.

The made Side Roads Order (SRO) authorises the stopping up of existing highways (that include footpaths, bridleways and cycle tracks), the construction and improvement of new highways, the stopping up of private means of accesses and provision of new private means of access.

This statement includes details of a proposed Variation to the made SRO in relation to:

1. Hafod Footbridge.
2. Pont Harri Isaac Footbridge.
3. Blackrock Footbridge.
4. Unclassified Road (Clydach Dingle) and the access to Brynmawr Foundation School.
5. Realignment to the routes of Footpaths FP333/41/1, FP333/34/2 and FP333/35/1 at Brynmawr Junction and National Cycle Route 46.
6. Realignment and amendment to other footways, footpaths, bridleways, private means of accesses, turning head facilities and extent of tie-in works to take account of conditions encountered on site.
7. Extent of highway to be improved at the western end of Main Road at Blackrock and the Unclassified Road to Hafod.
8. Amendment to the route of a new footpath at the former Lion Terrace, Gilwern.

There will be no change to the made Amendment (Line) Order or the Compulsory Purchase Order for the Published Scheme. Any additional land or rights over land, that would be needed to implement the changes will be acquired by agreement. The details of the changes, including how they compare with the Published Scheme and made SRO are set out below. The Variation Order, if made, would make amendments to the Schedules and site plans of the Order to authorise the changes.

Landowners and persons whose properties or private accesses would be directly affected by the changes to the Published Scheme have been visited, and made aware of the proposals in advance of the publication of this draft Variation Order.

## 1. REALIGNMENT OF FOOTPATHS FP333/41/1, FP333/34/2 and FP333/35/1 (Site Plan 1C)

The proposal is to realign Footpaths FP333/41/1, FP333/34/2 and FP333/35/1 (references 1/I and 1/J). In summary, the changes from the Published Scheme are:

- **Footway 1/I** - The footpath has been realigned south of its previous location, tying into Footpath 333/34/2 and 333/35/1 as before. This realignment extends the footpath from 230m to 233m.
- **Footway 1/J** – The footpath has been straightened between its junction with Brynmawr Junction Overbridge (Gateway Bridge) and Footpath 333/41/1, reducing the length of the footpath from 48.5m to 48m.

## CHANGES REQUIRED TO THE MADE SIDE ROADS ORDER

Principally the change will relate to the line of the footpaths around the earthworks provided for Brynmawr Junction Overbridge (Gateway Bridge) as illustrated as new highways reference 1/I and 1/J on Site Plan 1C of the deposited plan of the Variation Order.

## COMPARISON OF THE PROPOSED VARIATION WITH THE PUBLISHED SCHEME

- **Landscape -** The finishes would be consistent with the Published Scheme.
- **Rights of Way -** The level of amenity will be maintained with this Variation. However, footpath (new highway 1/I) will be extended by 3m and footpath (new highway I/J) reduced by 0.5m.

## 2. NATIONAL CYCLE ROUTE 46 (Site Plan 1C)

The extent of the stopping up of National Cycle Route 46 is increased as shown on Site Plan 1C, which was previously shown as highway to be improved. Part of the route of the cycle track will be provided within a shared footway/cycleway facility within the highway boundary of the A467. The extent of the highway improvement of the A467 is to be extended to include part of National Cycle Route 46.

**CHANGES REQUIRED TO THE MADE SIDE ROADS ORDER**

The description of the length of the stopping up of National Cycle Route 46 on page 5 of Schedule 1 of the made Order would be amended to increase it from 92 metres to 115 metres and the extent of improvement on the A467 is increased to provide the cycleway, as shown on Site Plan 1/C of the deposited plan of the Variation Order.

**COMPARISON OF THE PROPOSED VARIATION WITH THE PUBLISHED SCHEME**

- **Landscape** – The finishes would be consistent with the Published Scheme.
- **Rights of Way** - The level of amenity will be maintained with this Variation. Connections to the existing local footpath, footway and cycleway networks will be provided. Footway access to view the Brynmawr Sections Geological Site of Special Scientific Interest (SSSI) will be provided. Access to the footpath network via the existing steps to the rear of the shared footway/cycleway facility on the A467 spur will be maintained.
- **Cultural Heritage –** Access to the existing timber cross will be maintained with this Variation, via the stepped access to the rear of the shared footway/cycleway facility off the A467 spur. The footway link to the Brynmawr Sections Geological SSSI and the link to the cycleway and Brynmawr Junction Overbridge (Gateway Bridge) will provide opportunities to view the two Scheduled monuments at the top of the Gorge as per the Published Scheme.

## 3. <u>REALIGNMENT OF APPROACH RAMPS TO PONT HARRI ISAAC FOOTBRIDGE (SITE PLAN 2A)</u>

The proposal is to realign the south and north approach ramps at Pont Harri Isaac Footbridge. In summary, the changes from the Published Scheme are:

- **Southern Approach** – This approach will change to a structural ramp, which will be constructed in steel. Additional bridge piers will be provided to support the new ramp.
- **Northern Approach** – The northern ramp will loop beneath the proposed footbridge and connect to the existing footpath leading to Hafod Arch.

### CHANGES REQUIRED TO THE MADE SIDE ROAD ORDER

A slight amendment would be required to the SRO to change the line of the new footpaths approaching Pont Harri Isaac Footbridge from the north and south as illustrated as new highways reference 2/A and 2/B on Site Plan 2A of the deposited plan of the Variation Order. There is also a slight increase in the extent of Footpath 49/10, to be stopped up.

### COMPARISON OF THE PROPOSED VARIATION WITH THE PUBLISHED SCHEME

- **Landscape –** The variation to the south will retain more of the existing woody vegetation and reduce the extent of the works to the existing slope. The north realignment will require 88 $m^2$ of additional land take which will be acquired by agreement. All finishes would be consistent with the family of footbridges along the Published Scheme.
- **Rights of Way -** The level of amenity will be maintained with this Variation.
- **Ecology –** Retention of more existing woody vegetation to the south west side. However, 88 $m^2$ of land in the SSSI/SAC below the Sewage Works would be required to accommodate the looped ramp from the footbridge on the north side.
- **Cultural Heritage –** Access for maintenance of Hafod Arch Scheduled Ancient Monument and the former tramway would be maintained.
- **Construction –** The introduction of a ramp to the footbridge would reduce Health and Safety risks during construction and reduce the number of construction phases to complete the works in the area.

## 4. <u>RELOCATION OF BLACKROCK FOOTBRIDGE (SITE PLAN 2A)</u>

The proposal is to relocate Blackrock Footbridge. In summary, the changes from the Published Scheme are:

- Footbridge to be relocated to the western edge of Blackrock, requiring realignment of the footbridge over the A465 and of the ramps.
- The connections to the existing footpath network would be modified.
- Relocation of the footbridge enables the existing subway, to be utilised as a bat roost.

**CHANGES REQUIRED TO THE MADE SIDE ROAD ORDER**

An amendment would be required to the SRO. Principally the change will relate to the location of the Blackrock Footbridge over the A465 trunk road, which would move approximately 125m further west, compared to the Published Scheme as illustrated as new highway reference 2/D on Site Plan 2A of the deposited plan of the Variation Order.

**COMPARISON OF THE PROPOSED VARIATION WITH THE PUBLISHED SCHEME**

- **Landscape –** The lopping of some tree branches would still be required, to accommodate the sweep of the ramp on the south side. The visual effect of the realigned Blackrock Footbridge from 12 No. properties would be reduced.
- **Rights of Way -** The level of amenity will be maintained with this Variation. The relocation of the footbridge would increase walking distances by approximately 200m, inclusive of a short distance alongside the road.
- **Ecology –** The variation provides an opportunity for the exiting subway to be modified, to provide a new bat roost with a new culvert enabling bats to pass under the road in the future. The footbridge will move further away from established cave systems which are known to be used by bats.
- **Construction** - The alternative proposal provides a simpler construction methodology:
    - Removal of the piling operation required for the southern ramp supports, reduces the Health and Safety risks.
    - A significant reduction in the temporary works required to carry out the piling works and construction of the southern bridge sections.
    - Relocation of the footbridge moves the foundation construction further away from the known caves, protecting the geological features and reducing the risk encountering a Karst feature during construction.

## 5. AMENDMENTS TO NEW HIGHWAYS, FOOTPATHS/BRIDLEWAYS, PRIVATE MEANS OF ACCESS AND TURNING HEAD FACILITIES AND EXTENT OF TIE IN WORKS (Site Plans 1B, 1C, 2A, 3A, 4A AND 5A)

**CHANGES REQUIRED TO THE MADE SIDE ROAD ORDER**

As a result of the topographical conditions encountered on site and the continued design development, it has been necessary to propose amendments to a number of aspects of the Published Scheme as shown on the deposited plan of the Variation Order. The Variation Order would make the necessary amendments to the Schedules to the made Order.

Footpaths and Bridleway

The proposals are to make minor amendments to footpaths, bridleway and cycle tracks at:

- Hafod Footbridge (new highway references 1/C on Site Plan 1C).
- Hafod Footbridge (deletion of highway reference 1/E on Site Plan 1A of the original Order).
- Extension of stopping up of Unclassified Road to Clydach Dingle and minor alteration to the access to Brynmawr Foundation School, deletion of new highway reference 1/F and extension of new highway reference 1/G on Site Plan 1C.
- Part of Footpath 333/57/1 (that is coexistent with the Unclassified Road to Clydach Dingle) is being stopped up for an additional 5m in a north westerly direction on Site Plan 1C.
- Dan Y Coed Footbridge (new highway references 3/B on Site Plan 3A).
- Pant Glas Footbridge (new highway reference 4/C on Site Plan 4A).
- New highway reference 4/E (footpath) has been increased in width to provide Welsh Water vehicular access to their apparatus.
- Eastern end of new highway reference 5/A (footpath) at the former Lion Terrace, Gilwern.

Private Means of Access

The proposals are to make minor changes to new private means of access to premises referenced as follows, on the individual Site Plans of the deposited plan:

- 1/4a on Site Plan 1C – private means of access to Brynmawr Foundation School from its junction with the Unclassified Road leading to Clydach Dingle amended.
- 1/5a on Site Plan 1C – private means of access to Brynmawr Foundation School, electricity pylons and water utility apparatus from its junction with the Unclassified Road leading to Clydach Dingle amended.
- 1/15a on Site Plan 1C – length of private means of access reduced to cross the highway boundary, but not extend into the plot.
- 2/11a on Site Plan 2A – private means of access relocated to the rear of the property, so that it does not directly access Main Road.
- 2/11b on Site Plan 2A – private means of access relocated to take account of error in its original location.
- 2/12a on Site Plan 2A – private means of access reinstated as existing.
- 2/14a on Site Plan 2A – vehicular private means of access to be coexistent with the footway leading to the bus stop on the eastbound carriageway of the A465, has been provided for the benefit of the properties known as Hafod Inn Flats and Field House.
- 2/15a on Site Plan 2A - vehicular private means of access to be coexistent with the footway leading to the bus stop on the eastbound carriageway of the A465, has been provided for the sole benefit of the property known as Field House.
- 3/2a on Site Plan 3A – private mean of access alignment revised to access environmental mitigation planting areas.
- 3/2b on Site Plan 3A – private means of access alignment revised to access environmental mitigation planting areas.

Turning Head Facilities

The proposals are to make minor amendments and improvement to turning head facilities to be provided at Intermediate Road as referenced 1/B on Site Plan 1C and at Brunant Road where it meets Footpath 52/120 as referenced 4/F on Site Plan 4A.

The private means of access/turning head provided on Forge Row has been amended, for the use by Welsh Water to access their apparatus as referenced 4/3a on Site Plan 4A.

The proposed maintenance turning head on realigned Station Road at Gilwern, private means of access reference 5/13a on Site Plan 5 of the original Order has been deleted.

Tie-In Works

The proposals are to make minor amendments to the extent of the highway to be improved on the Unclassified Road to Hafod as shown on Site Plan 1C and at western extent of Main Road at Blackrock on Site Plan 2A.

**COMPARISON OF THE PROPOSED VARIATION WITH THE PUBLISHED SCHEME**

The changes above to either highways, footpaths, bridleways, private means of accesses, turning head facilities or tie-in works, are not considered to be material changes to those proposals outlined in the Published Scheme. The changes have been discussed with the Local Authority where appropriate, landowners and/or beneficiaries and are considered to be a reasonable alternative to the Published Scheme.

**LLYWODRAETH CYMRU**

**GORCHYMYN GORCHYMYN CEFNFFORDD CASTELL-NEDD I'R FENNI (YR A465) (DEUOLI O'R FENNI I HIRWAUN A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A CHEFNFFORDD MAN I'R DWYRAIN O ABERCYNON I FAN I'R DWYRAIN O DDOWLAIS (YR A4060) A CHEFNFFORDD CAERDYDD I LANCONWY ( YR A470) (FFYRDD CYSYLLTU) (GILWERN I FRYN-MAWR) (FFYRDD YMYL) 2014 (AMRYWIO) 201-**

***AILALINIO RAMPIAU DYNESFA PONT DROED PONT HARRI ISAAC***
***ADLEOLI PONT DROED BLACKROCK***
***AILALINIO LLWYBRAU TROED FP333/41/1, FP333/34/2 A FP333/35/1 YM MRYN-MAWR, LLWYBR BEICIO CENEDLAETHOL 46, LLWYBR TROED LION TERRACE***
**MÂN DDIWYGIADAU I BRIFFYRDD NEWYDD GAN GYNNWYS PONT DROED HAFOD, TROETFFYRDD/LLWYBRAU CEFFYLAU, DULLIAU PREIFAT O GAEL MYNEDIAD A CHYFLEUSTERAU TROI A GRADDAU'R GWAITH CYSYLLTIEDIG**

## DATGANIAD ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

Yn dilyn Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Mawrth/Ebrill 2014, lluniwyd Gorchmynion Ffordd Ddeuol Adran 2 yr A465 Gilwern i Fryn-mawr (a elwir yn y ddogfen hon yn y Cynllun a Gyhoeddwyd) ym mis Hydref 2014. Mae'r dewisiadau ar gyfer ychwanegu gwerth at y Cynllun wedi parhau i gael eu hymchwilio.

Mae'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl (SRO) a wnaed yn rhoi awdurdod i gau priffyrdd presennol (sy'n cynnwys llwybrau troed, llwybrau ceffyl a llwybrau beiciau), adeiladu a gwella priffyrdd newydd, cau dulliau preifat o gael mynediad a darparu dulliau preifat newydd o gael mynediad.

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys manylion am Amrywiad arfaethedig i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a wnaed mewn perthynas â'r canlynol:

1. Pont droed Hafod.
2. Pont droed Pont Harri Isaac.
3. Pont droed Blackrock.
4. Ffordd Ddiddosbarth (Clydach Dingle) a mynediad i Ysgol Sefydledig Bryn-mawr.
5. Ailalinio'r llwybrau ar gyfer Llwybrau Troed FP333/41/1, FP333/34/2 a FP333/35/1 yng Nghyfffordd Bryn-mawr a Llwybr Beicio Cenedlaethol 46.
6. Ailalinio a diwygio troetffyrdd, llwybrau troed a llwybrau ceffylau eraill a dulliau preifat o gael mynediad, cyfleusterau troi a graddau'r gwaith cysylltiedig er mwyn ystyried yr amodau a gafwyd ar y safle.
7. Faint o'r briffordd sydd i'w gwella yn ochr orllewinol y Brif Ffordd yn Blackrock a'r Ffordd Ddiddosbarth i Hafod.
8. Gwelliant i drywydd y llwybr troed newydd yn yr hen Lion Terrace, Gilwern.

Ni fydd unrhyw newid i'r Gorchymyn Diwygio (Llinell) a wnaed nac i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol ar gyfer y Cynllun a Gyhoeddwyd. Byddai angen i unrhyw dir ychwanegol neu hawliau dros dir, a fyddai eu hangen er mwyn rhoi'r newidiadau ar waith, yn cael eu caffael drwy gytundeb. Mae manylion y newidiadau, gan gynnwys y ffordd maen nhw'n cymharu â'r Cynllun a Gyhoeddwyd a'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a wnaed wedi'u nodi isod.

Byddai’r Gorchymyn Amrywio, os gwneir un, yn gwneud gwelliannau i Amserlenni a chynllluniau safle’r Gorchymyn er mwyn awdurdodi’r newidiadau.

Mae tirfeddianwyr ac unigolion y byddai'r Cynllun a Gyhoeddwyd yn effeithio’n uniongyrchol ar eu heiddo neu eu mynediadau preifat wedi cael ymweliad, a bellach yn ymwybodol o’r cynigion cyn i'r Gorchymyn Amrywio drafft hwn gael ei gyhoeddi.

## 1. AILALINIO LLWYBRAU TROED FP333/41/1, FP333/34/2 a FP333/35/1 (Cynllun Safle 1C)

Y cynnig yw ail-alinio Llwybrau Troed FP333/41/1, FP333/34/2 a FP333/35/1 (cyfeirnodau 1/I a 1/J). I grynhoi, dyma newidiadau’r Cynllun a Gyhoeddwyd:

- **Troetffordd 1/I** - Mae’r llwybr troed wedi’i ail-alinio i’r de o’i leoliad blaenorol, gan gysylltu â Llwybr Troed 333/34/2 a 333/35/1 fel o’r blaen. Mae’r ailaliniad hwn yn ymestyn y llwybr troed o 230 metr i 233 metr.
- **Troetffordd 1/J** – Mae’r llwybr troed wedi cael ei sythu rhwng ei gyffordd â Throsbont Cyffordd Bryn-mawr (Gateway Bridge) a Llwybr Troed 333/41/1, gan leihau hyd y llwybr troed o 48.5m i 48m.

## NEWIDIADAU GOFYNNOL I’R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED

Yn bennaf, bydd y newid yn gysylltiedig â thrywydd y llwybrau troed o amgylch y gwrthgloddiau a ddarparwyd ar gyfer Trosbont Cyffordd Bryn-mawr (Gateway Bridge), fel y dangoswyd yng nghyfeirnod priffordd newydd 1/I a 1/J ar Gynllun Safle 1C o’r cynllun wedi’i adneuo o’r Gorchymyn Amrywio.

## CYMHARU’R AMRYWIAD A GYNIGIWYD Â’R CYNLLUN A GYHOEDDWYD

- **Tirwedd –** Byddai’r gorffeniadau yn cyd-fynd â’r Cynllun a Gyhoeddwyd.
- **Hawliau Tramwy –** Bydd lefel yr amwynder yn cael ei gynnal gyda’r Amrywiad hwn. Fodd bynnag, bydd y llwybr troed (cyffordd newydd 1/I) yn cael ei ymestyn 3 metr a bydd y llwybr troed (cyffordd newydd I/J) yn cael ei leihau 0.5 metr.

## 2. <u>LLWYBR BEICIO CENEDLAETHOL 46 (Cynllun Safle 1C)</u>

Bydd darn mwy o'r Llwybr Beicio Cenedlaethol 46 yn cau fel y gwelir ar Gynllun Safle 1C, a ddangoswyd yn flaenorol fel priffordd i'w gwella. Bydd rhan o drywydd y llwybr beicio yn cael ei ddarparu mewn cyfleuster troetffordd/llwybr beiciau a rennir o fewn ffin priffordd yr A467. Bydd graddau'r gwelliannau i briffordd yr A467 yn ymestyn i gynnwys rhan o Lwybr Beicio Cenedlaethol 46.

**NEWIDIADAU GOFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**

Byddai'r disgrifiad o raddau'r broses o gau Llwybr Beicio Cenedlaethol 46 ar dudalen 5 Atodiad 1 o'r Gorchymyn a wnaed yn cael ei ddiwygio er mwyn ei gynyddu o 92 metr i 115 metr ac mae hyd y gwelliannau ar yr A467 yn cael ei gynyddu er mwyn darparu'r llwybr beiciau, fel y gwelir ar Gynllun Safle 1/C o'r cynllun wedi'i adneuo o'r Gorchymyn Amrywio.

**<u>CYMHARU'R AMRYWIAD A GYNIGIWYD Â'R CYNLLUN A GYHOEDDWYD</u>**

- **Tirwedd** – Byddai'r gorffeniadau yn cyd-fynd â'r Cynllun a Gyhoeddwyd.
- **Hawliau Tramwy** - Byddai lefel yr amwynder yn cael ei gynnal gyda'r Amrywiad hwn. Bydd cysylltiadau â rhwydweithiau presennol y llwybr troed, y droetffordd a'r llwybr beiciau lleol yn cael eu darparu. Darperir mynediad llwybr troed i weld Safle Daearegol Bryn-mawr sydd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Bydd mynediad i'r rhwydwaith o lwybrau troed drwy'r grisiau presennol yng nghefn y cyfleuster llwybr troed/llwybr beiciau a rennir ar ffordd gangen yr A467 yn cael ei gynnal.
- **Treftadaeth Ddiwylliannol -** Bydd mynediad i'r groes bren bresennol yn cael ei gynnal gyda'r Amrywiad hwn, drwy'r grisiau yng nghefn y cyfleuster llwybr troed/llwybr beiciau a rennir oddi ar ffordd gangen yr A467. Bydd cyswllt y llwybr troed â Safleoedd Daearegol Bryn-mawr sydd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a'r cyswllt â'r llwybr beiciau a Throsbont Cyffordd Bryn-mawr (Gateway Bridge) yn darparu cyfleoedd i weld y ddwy Heneb Gofrestredig ar frig y Ceunant fel y nodir yn y Cynllun a Gyhoeddwyd.

## 3. <u>AILALINIO RAMPIAU DYNESFEYDD PONT DROED PONT HARRI ISAAC (CYNLLUN SAFLE 2A)</u>

Y cynnig yw ail-alinio rampiau dynesfeydd deheuol a gogleddol Pont Droed Pont Harri Isaac. I grynhoi, dyma'r newidiadau i'r Cynllun a Gyhoeddwyd:

- **Dynesfa'r De** – Bydd y ddynesfa hon yn newid i ramp strwythurol, a fydd yn cael ei adeiladu allan o ddur. Darperir pileri ychwanegol ar gyfer y bont er mwyn cynnal y ramp newydd.
- **Dynesfa'r Gogledd** - Bydd y ramp gogleddol y troi o dan y bont droed arfaethedig ac yn cysylltu â'r llwybr troed presennol sy'n arwain at Fwa Hafod.

**NEWIDIADAU GOFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**

Byddai mân ddiwygiad yn ofynnol i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl i newid trywydd y llwybrau troed newydd ar ddynesfeydd deheuol a gogleddol Pont Droed Pont Harri Isaac fel y dangosir yng nghyfeirnod priffordd newydd 2/A a 2/B ar Gynllun Safle 2A o'r cynllun wedi'i adneuo o'r Gorchymyn Amrywio. Mae yna gynnydd bach i faint o Lwybr Troed 49/1 a fydd yn cael ei gau.

**CYMHARU'R AMRYWIAD A GYNIGIWYD Â'R CYNLLUN A GYHOEDDWYD**

- **Tirwedd –** Bydd yr amrywiad i'r de yn cadw mwy o'r llystyfiant a'r coed presennol ac yn lleihau graddau'r gwaith i'r llethr presennol. Bydd yr ailaliniad gogleddol angen 88 metr² o dir ychwanegol a fydd yn cael ei gaffael yn ôl cytundeb. Byddai'r holl waith gorffenedig yn cyd-fynd â'r teulu o bontydd troed ar hyd y Cynllun a Gyhoeddwyd.
- **Hawliau Tramwy –** Bydd lefel yr amwynder yn cael ei gynnal gyda'r Amrywiad hwn.
- **Ecoleg -** Cadw mwy o'r llystyfiant a'r coed presennol ar yr ochr dde-orllewinol. Fodd bynnag, byddai angen caffael 88 metr² o dir Safleoedd o Ardal Wyddonol Arbennig/Ardaloedd Cadwraeth Arbennig islaw'r Gwaith Trin Carthion er mwyn gwneud lle i'r ramp sy'n troi i lawr rhwng y bont droed i'r gogledd.
- **Treftadaeth Ddiwylliannol -** Mynediad er mwyn cynnal a chadw Heneb Restredig Bwa Hafod a byddai'r hen dramffordd yn cael ei chadw.
- **Adeiladu -** Byddai cyflwyno ramp i'r bont droed yn lleihau risgiau Iechyd a Diogelwch wrth adeiladu ac yn lleihau nifer y camau adeiladu ar gyfer cwblhau'r gwaith yn yr ardal.

## 4. ADLEOLI PONT DROED BLACKROCK (CYNLLUN SAFLE 2A)

Y cynnig yw adleoli Pont Droed Blackrock. I grynhoi, dyma'r newidiadau i'r Cynllun a Gyhoeddwyd:

- Bydd y bont droed yn cael ei adleoli i ffin orllewinol Blackrock, sy'n golygu bydd angen ail-alinio'r bont droed dros yr A465 a'r rampiau.
- Byddai'r cyswllt â rhwydwaith presennol y pontydd troed yn cael eu haddasu.
- Byddai adleoli'r bont droed yn sicrhau y gellir defnyddio'r tanlwybr presennol fel clwydfan ystlumod.

### NEWIDIADAU GOFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED

Byddai'n ofynnol diwygio'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl. Yn bennaf, bydd y newid yn gysylltiedig â lleoliad Pont Droed Blackrock dros gefnffordd yr A465, a fyddai'n symud tua 125 metr i'r gorllewin, o gymharu â'r Cynllun a Gyhoeddwyd fel y dangosir yng nghyfeirnod priffordd newydd 2/D ar Gynllun Safle 2A o'r cynllun wedi'i adneuo o'r Gorchymyn Amrywio.

### CYMHARU'R AMRYWIAD A GYNIGIWYD Â'R CYNLLUN A GYHOEDDWYD

- **Tirwedd –** Byddai'n dal i fod yn ofynnol i docio ychydig o ganghennau'r coed, er mwyn gwneud lle i'r ramp ar yr ochr ddeheuol. Byddai effaith weledol Pont Droed Blackrock wedi'i alilalinio ar 12 Eiddo yn gostwng.
- **Hawliau Tramwy –** Bydd lefel yr amwynder yn cael ei gynnal gyda'r Amrywiad hwn. Byddai adleoli'r bont droed yn cynyddu pellteroedd cerdded o tua 200 metr, gan gynnwys pellter byr ar hyd y ffordd.
- **Ecoleg –** Mae'r amrywiad yn rhoi cyfle i addasu'r danffordd bresennol, er mwyn darparu clwydfan newydd i ystlumod gyda chwlfert newydd gan alluogi ystlumod i deithio o dan y ffordd yn y dyfodol. Bydd y bont droed yn symud ymhellach i ffwrdd o'r rhwydwaith o ogofâu sydd wedi hen sefydlu y gwyddom eu bod yn cael eu defnyddio gan ystlumod.
- **Adeiladu** – Mae'r cynnig amgen yn darparu methodoleg adeiladu symlach:
  - Mae tynnu pyst y seiliau sy'n ofynnol ar gyfer cynnal y rampiau deheuol yn lleihau risgiau Iechyd a Diogelwch.
  - Gostyngiad sylweddol yn y gwaith dros dro sy'n ofynnol i gwblhau'r gwaith ar y pyst seiliau ac i adeiladu adrannau deheuol y bont.
  - Mae adleoli'r bont droed yn symud y gwaith adeiladu sylfeini ymhellach i ffwrdd o'r ogofâu, gan warchod y nodweddion daearegol a lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â nodwedd Karst yn ystod gwaith adeiladu.

## 5. DIWYGIADAU I BRIFFYRDD, LLWYBRAU TROED/LLWYBRAU CEFFYLAU NEWYDD, DULLIAU PREIFAT O GAEL MYNEDIAD A CHYFLEUSTERAU TROI A GRADDAU'R GWAITH CYSYLLTIEDIG (Cynlluniau Safle 1B, 1C, 2A, 3A, 4A A 5A)

**NEWIDIADAU GOFYNNOL I'R GORCHYMYN FFYRDD YMYL A WNAED**

O ganlyniad i'r amodau topograffig a gafwyd ar y safle a'r datblygiadau dylunio parhaus, roedd yn angenrheidiol cynnig gwelliannau i nifer o agweddau ar y Cynllun a Gyhoeddwyd fel y dangosir ar y cynllun wedi'i adneuo o'r Gorchymyn Amrywio. Byddai'r Gorchymyn Amrywio yn gwneud y diwygiadau angenrheidiol i Atodlenni'r Gorchymyn a wnaed.

Llwybrau Troed a Llwybrau Ceffylau

Y cynigion yw gwneud y mân ddiwygiadau canlynol i'r llwybrau troed, y llwybrau ceffylau a'r llwybrau beic:

- Pont Droed Hafod (cyfeirnod priffordd newydd 1/C ar Gynllun Safle 1C).
- Pont Droed Hafod (dileu cyfeirnod priffordd newydd 1/E ar Gynllun Safle 1A y Gorchymyn gwreiddiol).
- Ymestyn y cyfnod y bydd Ffordd Ddiddosbarth Clydach Dingle yn cau a mân newid i fynediad Ysgol Sefydledig Bryn-mawr, dileu cyfeirnod priffordd newydd 1/F ac ymestyn cyfeirnod priffordd newydd 1/G ar Gynllun Safle 1C.
- Mae rhan o Lwybr Troed 333/57/1 (sy'n cydfodoli â Ffordd Ddiddosbarth Clydach Dingle) yn cael ei chau am 5 metr yn ychwanegol i'r gogledd-orllewin ar Gynllun Safle 1C.
- Pont Droed Dan y Coed (cyfeirnodau priffordd newydd 3/B ar Gynllun Safle 3A).
- Pont Droed Pant Glas (cyfeirnod priffordd newydd 4/C ar Gynllun Safle 4A).
- Mae cyfeirnod priffordd newydd 4/E (llwybr troed) wedi cael ei ledu er mwyn darparu mynediad i gerbydau Dŵr Cymru i fynd at eu cyfarpar.
- Ochr ddwyreiniol cyfeirnod priffordd newydd 5/A (llwybr troed) yn yr hen Lion Terrace, Gilwern.

Dull Preifat o Gael Mynediad

Mae'r cynigion yn gwneud mân newidiadau i'r dull preifat o gael mynediad i safleoedd y cyfeirir atynt fel a ganlyn, ar y Cynlluniau Safle unigol o'r cynllun wedi'i adneuo:

- 1/4a ar Gynllun Safle 1C – dull preifat o gael mynediad i Ysgol Sefydledig Bryn-mawr o'i chyffordd â'r Ffordd Ddiddosbarth sy'n arwain at Clydach Dingle wedi'i ddiwygio.
- 1/5a ar Gynllun Safle 1C - dull preifat o gael mynediad i Ysgol Sefydledig Bryn-mawr, peilonau trydan a chyfarpar gwasanaethau dŵr o'i gyffordd â'r Ffordd Ddiddosbarth sy'n arwain at Glydach Dingle wedi'i ddiwygio.
- 1/15a ar Gynllun Safle 1C - hyd y dull preifat o gael mynediad wedi'i ostwng er mwyn croesi ffin y brifffordd, ond nid yw'n ymestyn i'r plot.
- 2/11a ar Gynllun Safle 2A - y dull preifat o gael mynediad wedi'i adleoli i gefn yr eiddo, fel nad yw'n ymuno'n uniongyrchol â'r Brif Ffordd.
- 2/11b ar Gynllun Safle 2A – y dull preifat o gael mynediad wedi'i adleoli i ystyried y gwall gyda'i leoliad gwreiddiol.
- 2/12a ar Gynllun Safle 2A – dull preifat o gael mynediad yn cael ei ailsefydlu.
- 2/14a ar Gynllun Safle 2A – mae mynediad preifat i gerbydau a fydd yn cydfodoli â'r llwybr troed sy'n arwain at y safle bws ar ffordd gerbydau ddwyreiniol yr A465 wedi'i ddarparu er budd eiddo Fflatiau Hafod Inn a Field House.
- 2/15a ar Gynllun Safle 2A – mae mynediad preifat i gerbydau a fydd yn cydfodoli â'r llwybr troed sy'n arwain at y safle bws ar ffordd gerbydau ddwyreiniol yr A465, wedi'i ddarparu er budd penodol eiddo Field House.

- 3/2a ar Gynllun Safle 3A – Y broses o alinio'r dull preifat o gael mynediad yn cael ei diwygio er mwyn lleihau'r effaith amgylcheddol ar ardaloedd plannu.
- 3/2b ar Gynllun Safle 3A – Y broses o alinio'r dull preifat o gael mynediad yn cael ei diwygio er mwyn lleihau'r effaith amgylcheddol ar ardaloedd plannu.

Syniadau Troi

Mae'r cynigion yn cynnwys gwneud mân-ddiwygiadau a gwelliannau i gyfleusterau troi i'w darparu ar y Ffordd Ganolradd cyfeirnod 1/B ar Gynllun Safle 1C ac yn Ffordd Brunant lle mae'n cyfarfod â Llwybr Troed 52/120 cyfeirnod 4/F ar Gynllun Safle 4A.

Mae'r dull preifat o gael mynediad/lle troi a ddarparwyd ar Forge Row wedi'i ddiwygio, i'w ddefnyddio gan Dŵr Cymru i gael mynediad i'w cyfarpar, cyfeirnod 4/3a ar Gynllun Safle 4A.

Mae'r gwaith o gynnal a chadw'r lle troi ar Ffordd yr Orsaf, Gilwern sydd wedi'i ail-alinio, sef y dull preifat o gael mynediad cyfeirnod 5/13a ar Gynllun Safle 5 y Gorchymyn gwreiddiol wedi'i ddileu.

Gwaith Cysylltiedig

Mae'r cynigion yn cynnwys gwneud mân-ddiwygiadau i hyd y briffordd a fydd yn cael ei gwella ar y Ffordd Ddiddosbarth i Hafod fel y dangosir ar Gynllun Safle 1C ac ar ochr orllewinol y Brif Ffordd yn Blackrock ar Gynllun Safle 2A.

**CYMHARU'R AMRYWIAD A GYNIGIWYD Â'R CYNLLUN A GYHOEDDWYD**

Nid yw'r newidiadau uchod i'r priffyrdd, y llwybrau troed, y llwybrau ceffylau, y dulliau preifat o gael mynediad, cyfleusterau'r syniadau blaengar na'r gwaith cysylltiedig, yn cael eu hystyried yn newidiadau perthnasol i'r cynigion a amlinellwyd yn y Cynllun a Gyhoeddwyd. Mae'r newidiadau wedi'u trafod gyda'r Awdurdod Lleol lle y bo'n berthnasol, tirfeddianwyr a/neu fuddiolwyr ac fe'u hystyrir yn ddewisiadau amgen rhesymol i'r Cynllun a Gyhoeddwyd.